# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 130

TACHWEDD 1986

# COLLI CYMWYNASWRAIG

Ym marwolaeth y Fonesig Rowena Traherne, Arglwyddes Coedarhydyglyn, collodd Cymru un o'i boneddigesau hawddgaraf. Bydd llawer ymhell ac agos yn teimlo yn ysig ei cholled ac yn hiraethu ar ei hôl, a chenedl y Cymry yn cydymdeimlo â Syr Cennydd ar ddyfod terfyn disyfyd yr Angau i'w bartneriaeth â'r wraig ryfeddol hon.

Roedd ei chysylltiadau yn eang a'i diddordebau yn niferus, ac fel un a gafodd y fraint o'i hadnabod dros gyfnod hir, gallwn ddweud yn bur hyderus bod Cymru a'i hiaith a'i dyfodol yn agos iawn at ei chalon. Roedd teulu Coedarhydyglyn yn adlewyrchu Cymru ar ei gorau.

Er iddi hannu o Swydd Caergrawnt, gwreiddiodd yn ddwfn a chynnar yng Nghymru, ac ar ôl ei phriodas yn 1934, anwesodd y wlad a'i phobl. Dysgodd y Gymraeg. Soniodd y Dr. Harri Pritchard Jones wrthyf am yr amser y bu ef a'i wraig Lena yn ei hyfforddi yn y Gymraeg. Dysgodd y Gymraeg a gwnaeth Syr Cennydd a hithau ein hiaith a'i hawyrgylch yn nodwedd amlwg eu haelwyd. Ni feiddiai unrhyw un sarnu'r Gymraeg yng ngwydd Syr Cennydd a'r Fonesig Rowena Traherne. Agorodd Rowena ddrysau ei chalon a'i chartref chwaethus i gofleidio achos a thraddodiadau Cymru. Arlwyodd fyrddau ei phlas a'i lawntiau i hybu ein cronfeydd a'n mudiadau cenedlaethol.

Mae'n wir i Syr Cennydd a hithau weld glawio anrhydeddau arnynt yn eu dydd, ond nid oes eisiau ond rhestru ei gweithgarwch a mesur ei hegni a'i hymroddiad i sylweddoli nad oedd un anrhydedd a gafodd y Fonesig Rowena a'i gwr heb haeddiant.

Fe all mai'r anrhydedd a werthfawrogid yn fwy na dim oedd y radd a enillodd trwy ymdrech ddygn gyda'r Brifysgol Agored - breuddwyd oes oedd hyn o gamp!

Rhaid ei bod yn fenyw hynod iawn i ddysgu hedfan fel y gwnaeth yn ystod yr Ail Ryfel Mawr ac ail-gydio yn y gamp ar ôl ymddeoliad Syr Cennydd yn hydref eu dyddiau. Dringodd y Fonesig yn uchel yn rhengoedd Urdd San Ioan. Yr oedd ei chefnogaeth i Urdd Gobaith Cymru yn hael a chyson, ac yr oedd ei chyfeillgarwch a Syr Ifan ab Owen a'r Fonesig Edwards yn agos a chlos. Hi oedd Comisiynydd Cymru dros fudiad y Girl Guides, llywydd y Groes Goch, Cyfeillion Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd a Chronfa'r Bad-achub.



Gyda chaniatâd hael y South Wales Echo.

Gweithiodd Rowena hyd y diwedd ar ymchwil i achau a rhamant teulu Traherne gan ganolbwyntio ar y 18 a'r 19 ganrif. Nid rhyfedd i ddylif o negeseuau o gydymdeimlad gyrraedd Syr Cennydd - mae'r golled yn fawr a'r hiraeth yn arteithiol ar ei hôl.

Fel canodd y diweddar Gerallt Jones -

"Un ddreng yw'r lleidr Angau
Am loywder, ceinder mae'n cau;
Daw i ddwyn o'n byd ei dda
A dwyn 'r enaid uniona'....."

Syr Alun Talfan Davies

## Croesawu

ENILLYDD Cymrodoriaeth Coleg y Brifysgol Gogledd Cymru, Bangor, am 1986-8, yw'r Dr. Juliette M. Wood. Fe'i ganed yn Efrog Newydd, ond daw rhieni ei mam o'r Eidal a rhieni ei thad o Gymru (ei nain o Fiwmaris a'i thaid o Gaerdydd). Enillodd Dr. Wood, sy'n briod ac yn byw yn Rhydychen, raddau B.A. (Coleg New Rochelle); M.A. a Ph.D., mewn llên gwerin (Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth); ac M.Litt., ar Chwedl Taliesin (Coleg Linacre, Rhydychen). Cyhoeddodd nifer helaeth o erthyglau ar lên gwerin ac yn arbennig ar destunau yn ymwneud â Thaliesin, Maelgwn Gwynedd a Gwallter Map. Dysgodd hefyd siarad Cymraeg.

Yn ystod cyfnod o ddwy flynedd y Gymrodoriaeth bydd yn cydweithio gyda Robin Gwyndaf yn Amgueddfa Werin Cymru i baratoi mynegai cynhwysfawr i storïau gwerin Cymru wedi'u dosbarthu yn ôl teipiau a motifau. Y mae'r Amgueddfa yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfle hwn i gydweithio gydag un o Gymrodyr y Brifysgol. Ceir yn yr Amgueddfa Werin bellach gasgliad cyfoethog o storïau gwerin wedi'u cofnodi ar dâp ac mewn llawysgrif, yn ogystal ag mewn ffynonellau printiedig. Bydd y mynegai cydwladol hwn yn gyfraniad o bwys ym maes y stori werin ac yn un a gaiff ei werthfawrogi'n helaeth.

# Arddangosfeydd
## TACHWEDD

Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Y Prif Adeilad, Parc Cathays

Thomas Hornor   Tan 23 Tachwedd
Dyfrlliwiau a wnaed yng Nghwm Nedd yn nechrau'r 19 ganrif.

Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru
Heol Bute

Ymateb Pedwar Artist i Fywyd y Glowr.   Tan 28 Tachwedd.
Gwaith Joseph Herman, Jack Crabtree, Valerie Ganz a Nicholas Evans

Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth

Cymdeithas Celf De Cymru
Arddangosfa Flynyddol   Tan 7 Rhagfyr
Dyma'r 91ain arddangosfa detholedig o waith yr aelodau.

Y Ffotogallery, Heol Siarl

Arddangosfa Nadolig Blynyddol yr Aelodau, 12 Tachwedd - 20 Rhagfyr.

Noder : Yr Ystafell Fwyta yn yr Amgueddfa. Wedi bod yn feirniadol o'r ffaith fod yr ystafell wedi bod ar gau i ymwelwyr ym misoedd yr haf, braf yw cyhoeddi ei fod ar agor o dan reolaeth newydd. Cinio poeth neu oer a bwydlen newydd bob dydd.
Ar agor 10.00 a.m. - 4.30 p.m. dydd Mawrth tan ddydd Sadwrn; a 2.30 p.m. - 4.30 p.m. ar y Sul.

ARDDANGOSFA THOMAS HORNOR, AMGUEDDFA GENEDLAETHOL.

Wrth yrru'ch car tua'r gogledd ar hyd yr A465 o Gastell Nedd, hawdd peidio sylwi ar dŷ bonedd gwyn ychydig gannoedd o latheni o'r ffordd fawr. Dyma Rheola, sydd yn awr yn ganolfan hyfforddiant diwydiannol. Codwyd y tŷ gan y cyfreithiwr John Edwards yn 1812-1813, ac fe'i cynlluniwyd gan yr enwog John Nash a oedd yn gyfaill a pherthynas iddo.

Cymaint oedd meddwl John Edwards o'r tŷ a'r golygfeydd prydferth oedd o'i amgylch, nes iddo wahodd yr artist Thomas Hornor i'w peintio yn 1814. Yn ystod y pum mlynedd dilynol, llanwodd Hornor o leiaf naw cyfrol enfawr a gynhwysai ddisgrifiadau o'r daith rhwng Llansawel a Phont-neddfechan, ynghyd â thua 25 o dirluniau dyfrlliw o Gwm Nedd. Fe ddisgrifiodd hefyd daith gerdded o Ferthyr Tudful i Gaerdydd, ac o Gaerdydd i Fargam.

Prynodd yr Amgueddfa un o'r cyfrolau hyn yn 1917 ynghyd a 23 o'r peintiadau a welir yn yr arddangosfa hon. Braf yw gweld y trysorau o'r diwedd. Os ydych yn adnabod yr ardal yn dda, fe'ch swynir gan y lluniau ac o edrych ar Gwm Nedd fel y bu. Cofnododd Thomas Hornor dopograffi y wlad yn ofalus iawn cyn oes y camera a'r ffilm lliw sydd yn gyfrwng darlunio llyfrau teithio heddiw.

Oriel, Heol Siarl

"Derbyniwch y peth dibwys hwn oddi wrth gyfaill", Hyd 15 Tachwedd; Arddangosfa Cwiltiau a Sampleri o gasgliad enwog Amgueddfa Caerfyrddin. Gw. 'Torth o Fara', tudalen 5



CYFEILYDD - Oes angen Cyfeilydd arnoch chi, neu ar eich plant, ar gyfer arholiadau cerdd? Mae Owen Saer yn barod i gynnig ei wasanaeth fel Cyfeilydd Piano ar gyfer arholiadau o bob safon.
Cysylltwch, os gwelwch yn dda, ag ef, ar Caerdydd 562756

**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**

## RADIO'R DDRAIG GOCH

Ar Hydref 14eg eleni, dathlodd yr orsaf radio leol, Radio'r Ddraig Goch, ei phenblwydd cyntaf. A barnu yn ôl ystadegau nifer y gwrandawyr, bu'n flwyddyn lwyddiannus, ac y mae bellach wedi ymsefydlu fel gorsaf boblogaidd yn yr ardal.

Pan ddaeth cwmni'r Rhosyn Coch o Ogledd Lloegr i'r adwy, ac uno gorsafoedd Darlledu Caerdydd a Darlledu Gwent, roeddem fel Cymry Cymraeg yn bur ofidus ynglyn a'r sylw a gawsai'r iaith gam gwmni dieithr ar yr orsaf newydd. Ers dyddiau cynnar Cwmni Darlledu Caerdydd, bu cyfyngder ariannol yn achos cwtogi helaeth ar y rhaglenni Cymraeg - ond yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd datblygiadau pwysig ym myd darlledu yng Nghymru, gyda dyfodiad S4C, a Radio Cymru ar yr awyr am rai oriau gyda'r nos.

Bellach mae Radio'r Ddraig Goch wedi ennill ei phlwyf yn yr ardal; cyn bo hir fe benodir Rheolwr Rhaglenni newydd, ac wrth edrych i'r dyfodol y bwriad yw rhoi mwy o naws leol i'r darlledu. Gallai'r orsaf wneud cyfraniad gwerthfawr iawn, er enghraifft, drwy ddod â'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg at ei gilydd (ac y mae Eisteddfod Casnewydd yn ganol-bwynt addas iawn i'r pwrpas hwn wrth reswm) - ond y mae angen ein cefnogaeth a'n diddordeb ni er mwyn i hyn ddatblygu. Buasai swyddogion yr Awdurdod Darlledu Annibynnol a Radio'r Ddraig Goch ei hun yn croesawu eich syniadau a'ch awgrymiadau am ddefnydd i raglenni Cymraeg neu ddwyieithog. Dyma'r amser delfrydol - peidiwn a cholli'r cyfle. Cyfeirier unrhyw ohebiaeth at yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, Ty Elgin, Heol y Santes Fair, Caerdydd, neu at y Rheolwr Rhaglenni (neu'r cyflwynwyr) yn Radio'r Ddraig Goch, West Canal Wharf, Caerdydd.

I gloi, nodyn i'ch atgoffa am amseroedd rhaglenni Cymraeg Radio'r Ddraig Goch -

Nos Fawrth, 9.30-10.00
"Mae'r Ddraig yn Hedfan" gyda Derec Brown

Nos Wener, 9.30-10.00
"Mae'r Ddraig yn Hedfan" gyda John Pockett

Nos Sul, 9.00-11.00
"Cadw Cwmni" gyda Derec Brown (a cheisiwch ddyfalu pwy sy'n anfon y ceisiad-au iddo!)

I'r rhai ohonom sy'n teimlo'r bwlch wedi colli rhaglenni Radio Cymru gyda'r hwyr, beth am droi botwm eich radio naill ai i :

103.2 ar yr Amledd Uchel Iawn (VHF)
neu 221 m (1359 kHz) ar y Donfedd Ganol

a chefnogi'ch gorsaf radio leol.

# JIWBILI TŶ'R CYMRY

Pan daniwyd y goelcerth genedlaethol ym Mhenyberth yn 1936 fe gafodd fflam fechan ei chynnau yng Nghaerdydd, fflam a droes yn dân cynnes, croes-awgar ar aelwyd Tŷ'r Cymry yn 11 Heol Gordon. Eleni felly yw blwyddyn jiwbili'r Tŷ a fu'n gymaint sbardun i'r deffroad Cymraeg yn y ddinas sydd bellach yn brifddinas Cymru.

Noson y dathlu oedd nos Wener, Medi 26, pan ddaeth dros drigain o garedigion y Tŷ at ei gilydd yng Ngwesty'r Parc. A noson ddifyr dros ben oedd hi. Cyn cinio, tros ginio ac wedi'r cinio doedd dim pall ar y cloncian a'r clebran. Hen gyfeillion, hen hanesion, hen atgofion oedd bwydlen y siarad a llaciodd gwin y gorffennol lawer i dafod.

Er nad oedd yno neb o'r cyfnod cynnar fe gawsom glywed ychydig ar yr hanes boreol gan westai'r dathlu, Y Barnwr Dewi Watkin Powell. Fe lwyddodd yn arbennig i'n dwyn ni i gyd, o bob cenhedlaeth ac o bob cefn-dir, at Lewis Williams, rhoddwr y Tŷ. Gobeithio y gwnaiff y barnwr gyfle i osod y manylion cynnar ar glawr gan fod y Tŷ, oddi ar ei sefydlu hyd at heddiw, wedi cyfrannu'n helaeth at ddatblygiad Cymreic-tod Caerdydd. Soniodd am amodau'r rhodd, amodau a adlewyrchai safbwynt ac argyhoeddiadau Lewis Williams - mai Cymraeg fyddai iaith y clwb canys dyna beth oedd y Tŷ mewn gwirionedd, clwb; mai nod aelodaeth y clwb fyddai cael Statws Dominiwn i Gymru sef adlais o gyffro politicaidd y cyfnod wrth sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru; mai clwb dirwestol fydda'r Tŷ.

Yr hyn a gafwyd oedd creu canolfan, neu'r syniad o ganol-fan, ar gyfer Cymry Cymraeg ifainc y tu allan i furiau'r capeli. O wneud hyn fe darddodd pob math o ffrydiau bywiol sydd, erbyn hyn, wedi troi'n llifeiriant y bywyd Cymraeg yn y brifddinas. Gyda diwedd y rhyfel y dechreuodd y dylifiad a hynny'n ddylifiad o athrawon gan fod y ddinas wedi mabwysiadu cynllun dysgu Cymraeg gan athrawon peripatetig. Pan ddeuai'r newydd-ddyfodiaid o'r colegau roedd yma gnewyllyn cadarn i'w meithrin. Gwir bod yma gasgliad cryf o weinidogion ac os oedd awydd gan rywun ifant o bant gadw at arferion ei henfro roedd y capeli ar gael. Rhaid cofio hefyd am Eglwys Dewi Sant ac am Gymdeithas y Cymrodorion. Ond fe gafwyd yn Nhŷ'r Cymry loches i'r ieuenctid oedd am gyfathrebu â'u cenhedlaeth eu hunain yn eu hiaith eu hunain.

Cafodd y Tŷ ei ddefnyddio am gyfnod hir fel pencadlys UCAC ac mae hanes yr undeb hwnnw yn stori fawr arall nad oes mo'r lle yn hyn o adroddiad i'w ddilyn. Ond i ni, athrawon dibrofiad yn gadael coleg roedd ymgeleddwyr yn ein haros - dynion fel Gwyn Daniel a Victor Hampson Jones, dau biler UCAC. Byddai angen cryn ofod i fynd ar ôl cyfraniad y ddeuddyn hyn oedd mor annhebyg i'w gilydd ymhob ffordd bron ond am eu cred ddisygog yng ngwerth y diwylliant a'r genedl Gymraeg.

Y person allweddol mewn clwb, fel mewn ysgol, yw'r ceidwad. Pan ddeuthum i a'm tebyg i Gaerdydd tua diwedd y pedwar-degau Mrs. Celyn John oedd yn teyrnasu a theimlem ei bod hi wedi bod yno erioed. Fe'i holynwyd hi gan Mrs. Elinor Davies ac roedd pawb ohonom yn y dathlu yn falch o'i chael yn ein plith. Mae hi mor fywiog a brwd ag erioed a phriodol iawn oedd mai hi gafodd ddodi'r gyllell gyntaf yn y gacen penblwydd. Er iddi symud i fyw i Mackintosh Place fel Mrs. Davies Tŷ'r Cymry y bydd hi mwyach.



Er mwyn hoelio'r olyniaeth dros yr hanner can mlynedd un arall oedd yn ein mysg oedd ŵyr i Lewis Williams ac mi fyddai'r hen frawd yn ddigon balch o gael gwybod bod yr or-wyrion i gyd yn siarad iaith eu hen dadcu.

Yr unig gwmwl a ddaeth yn gysgod dros yr achlysur hynod hapus hwn oedd clywed am y ddamwain ddifrifol a ddaeth i ran Moelwyn Preece a oedd i lywyddu'r noson. Wrth lwc, roedd Iorwerth Morgan ar gael i gynnal y gweithrediadau'n deilwng iawn. Cyn i bawb fynd tua thref cafwyd gair gan sawl person o bell ac agos ond cyn tewi rhaid nodi achos y dysgwyr.

Mae'r Tŷ'n fan cyfarfod i grŵp egniol o ddysgwyr ac mae gweithgarwch yr aelodau newydd hyn yn ddigon i godi ysbryd y mwyaf gwangalon. Roedd eu presenoldeb ymarferol yn y dathlu yn arwydd hyderus o nerth y gorffennol a gobaith y dyfodol. Cafodd tân y Tŷ fyth mo'i ddiffodd a nawr mae arwyddion ail fywyd ac adnewyddu yn y tir.

Gall Eric Evans a'i gyd-weithwyr fod yn fodlon iawn ar y noson a rhwydd hynt i bopeth a berthyn i Dŷ'r Cymry i'r dyfodol.

Wynne Lloyd

# NEWYDDION

Yn sgil eu llwyddiant i berswadio'r Swyddfa Bost i sefydlu "Cownter Cymraeg" ym mhrif swyddfa'r post, Ffordd Churchill, Caerdydd, mae Cell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi galw am gownteri Cymraeg ym mhob un o fanciau canol y dref. Mae Cell Caerdydd wedi codi'r mater hwn mewn sawl llythyr at y banciau ers mis Ionawr eleni. Yr ydym nawr wedi gofyn am gyfarfod â'r Rheolwyr Rhanbarthol, o bob un o'r prif fanciau, er mwyn trafod eu defnydd o'r Gymraeg.

Eisoes cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gan fanc Lloyds, sydd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac sydd nawr yn ystyried sawl ffordd o wella eu defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys sefydlu cownter Cymraeg yn eu cangen yn Heol y Frenhines, Caerdydd. Mae Banc y Midland a'r National Westminster hefyd wedi cytuno i gyfarfod â ni yn y dyfodol agos.

Yng nghyfarfod cyffredinol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn Aberystwyth ar ddydd Sadwrn, 11eg Hydref, pleidleisiodd aelodau o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg o blaid polisi o weithredu uniongyrchol yn erbyn pob banc sydd yn gwrthod gwneud ymdrech i wella eu defnydd o'r Gymraeg. Mae sawl banc sydd wedi anwybyddu cais Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am gyfarfod gan gynnwys y Banc Giro, Banc Masnachol Cymru, Banc Brenhinol Yr Alban, a banciau y Gwyddelod yng Nghaerdydd.

Am fwy o fanylion ffoniwch - Caerdydd 488399

Steffan Webb,
Cadeirydd Cell Caerdydd,
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

---

Dymunwn longyfarch Iwan Guy, yn awr o'r Bontfaen, ar ennill Medal Aur yng nghystadleuaeth yr Unawd Bariton yn Eisteddfod y Glowyr a gynhaliwyd ym Mhorth-cawl yn ddiweddar. Unawdydd dawnus yw Iwan ond mae'n rhannu ei ddoniau cerddorol a chymdeithas y Bontfaen a'r Cylch; bu'n arwain Côr Meibion yr ardal am gyfnod cyn troi ati i sefydlu ac arwain Côr Cymysg.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffôn: 562816.

(Ymddiheurwn i Gylch Cinio'r Barri am roi'r dyddiad anghywir i Noson y Gwragedd yn rhifyn Hydref)

Tachwedd

11 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, Neuadd Bethel, Capel y Bedyddwyr, Heol Penlline, 7.30 p.m. Wynne Lloyd

12 Cymdeithas y Dysgwyr, Ty'r Cymry, 11 Gordon Road. Siaradwr: Idwal Walters

14 Sioe Bypedau yn Ysgol Iolo Morganwg, Y Bontfaen am 10 a.m.

19 Cymdeithas Minny Street, yn ymweld a Theatr y Sherman i weld 'O Law i Law'

19 Gwyl Gerdd Caerdydd (Gweler yr hysbyseb ar y ddalen gefn)

20 Sioe Ffasiynau yn Neuadd Pendeulwyn am 7.30. Cyfle i weld casgliad Elinor trwy garedigrwydd CYMRAES RHYNGWLADOL; Jenny Ogwen (HTV) yn cyflwyno. Mynediad £2 Yr elw at Gylch Meithrin Clawdd Coch

26 Ffair Nadolig Cylch Meithrin Y Waun, King George Vth Drive; 10.00 - 12.00; Croeso cynnes i bawb.

29 Cylch Cinio Cymraeg Y Barri; Noson y Gwragedd Gwestai: Mallt Anderson

Rhagfyr

5 Cymrodorion Caerdydd; Festri Minny St.; Darlith ar Paul Robeson gan y Parch T.J.Davies. Cadeirydd: Rebecca Powell

6 7.30 p.m. yng Nghapel Salem, Canton, 'Ser yn Salem'; Cyngerdd i godi arian tuag at y Trydydd Byd

9 Recordio Talwrn y Beirdd yn Y Barri. Gornest rhwng Pontarddulais a Bro Morgannwg. 7.30

10 Cymdeithas y Dysgwyr, Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon, Dathlu'r Nadolig

12 Cymdeithas Minny St. Noson yng ngofal aelodau Eglwys Bethel Penarth

13 Côr Philharmonig Caerdydd; Cyngerdd Nadolig yn Neuadd y Brifysgol Corbett Rd.; 7.30; MESSE SOLENNELLE(Rossini) Tocynnau: £3.50; Tel. 406666

# LLYTHYRAU

Annwyl Syr,

Arferwn gredu fod gan Gyngor Sir De Morgannwg bolisi o ateb llythyrau Cymraeg oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn yr iaith honno. Yn wir, fe gadarnhaodd Prif Weithredwr y Cyngor taw dyna oedd y polisi pan y'i holwyd gan y Cyng. Chris Franks mor bell yn ôl â mis Hydref 1982. Yn ddiweddar, fodd bynnag, cefais fy synnu pan dderbyniais lythyr Saesneg gan y Cyngor yn ateb i lythyr Cymraeg oddi wrthyf. Ysgrifennais ato i holi a oedd eu polisi blaenorol wedi newid. Cefais fy synnu'n fwy byth pan ddaeth y llythyr isod yn ol

Dear Mr. Merfyn,

Correspondence in Welsh

Thank you for your letter of 29th September.

The Welsh Office does assist in translation of correspondence but in recent months they have been under extreme pressure. Following your letter of 15th July, I felt the importance was the reply not the language. The same is true with this letter.

I confirm that the general position is as stated in my letter of 18th October 1982 to Councillor Franks.

Yours sincerely,
P. DAVIES for
Chief Executive.

Yn amlwg mae polisi'r Cyngor yn yfflon; ar hyn o bryd fe'i dehonglir fel "Os oes rhywbeth pwysig gennym i'w ddweud, fe'i dywedwn yn Saesneg". A fu'r angen am Ddeddf Iaith Newydd erioed yn gliriach?

Yr eiddoch yn gywir,

HYWEL MERFYN

Annwyl Olygydd,

Tybed a fyddai yn bosibl imi, trwy dudalennau'r Dinesydd, wneud apêl am ddillad dynion ar gyfer y digartref sydd yn defnyddio'r lloches nos sydd yn Crichton Street, Caerdydd? A'r gaeaf yn dod, mae prinder dillad yn y lloches, ac wrth i'r tywydd oeri y mae'n bwysig fod y dynion yno yn cael eu dilladu'n addas ar gyfer enbydrwydd y misoedd nesaf.

Y mae galw am bob math o ddillad, ond am sannau, dillad isaf a chrysau yn arbennig. Hefyd mae angen plancedi i'w cadw'n gynnes yn y nos, a byddai cymorth darllenwyr y Dinesydd yn werthfawr dros ben.

Pe byddai pobl yn gallu dod ac unrhyw ddillad a phlancedi y maent wedi darfod â hwy i festri Ebeneser yn Heol Siarl ar unrhyw nos Fercher rhwng 7.00 ac 8.30, byddem yn ddiolchgar iawn. Bydd y festri hefyd ar agor fore Sadwrn, 22 Tachwedd, rhwng 9.30 a 12.30 i dderbyn rhoddion.

Ni allaf bwysleisio digon yr angen sydd ar hyn o bryd am y dillad. Cofier fod llawer o'r pethau yr ydym ni wedi darfod â hwy o ddefnydd i'r bobl hyn. Diolchaf ymlaen llaw am bob cymorth a diolchaf i'r Dinesydd am ganiatau hyn o ofod i wneud yr apêl.


Yn gywir,

Geraint Tudur.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530



celtic asset management ltd.

RHEOLWYR BUDDSOSDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021
Delwyr trwyddedig mewn gwarannau.

# TORTH O FARA

Ar y 17eg o Hydref agorwyd arddangosfa Cwrlidiau a Sampleri yn Oriel gan Mr. Derrick Turner. Detholiad o gasgliad amgueddfa Caerfyrddin sydd i'w weld yn yr arddangosfa a dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu gweld yng Nghaerdydd. Sally Moss, Curadurwraig Cynorthwyol Amgueddfa Caerfyrddin a Joy Goodfellow o Oriel sydd wedi bod yn gyfrifol am baratoi'r arddangosfa.



Hyd nes i Chris Delaney, Curadur Amgueddfa Caerfyrddin a'i chyd-weithwyr fynd ati i roi trefn ar y casgliad nid oedd llawer o sylw wedi'i roi i'r cyfoeth o sampleri oedd ym meddiant yr amgueddfa. Erbyn hyn mae'r sampleri yn cael eu harddangos yn aml yn yr amgueddfa ac yn cael eu benthyg ar gyfer arddangosfeydd ym mannau eraill o Gymru.

Mae'r sampleri a'r cwrlidiau yn rhan o gefndir hanesyddol a chymdeithasol ein gwlad. Roedd y traddodiad o gyflwyno cwilt yn anrheg priodas er enghraifft yn golygu bod nifer o wragedd yn dod at ei gilydd i ddarparu cynllun y cwilt ac yna yn ei wnio ar gyfer y briodas. Mae'r cynlluniau eu hunain yn ddiddorol ac yn dangos medrusrwydd y gwinyddesau i greu patrymau cymhleth mewn pwythau, lliwiau a ffurfiau geometrig. Mae enghraifft o gwilt priodas i'w weld yn yr arddangosfa wedi'u wneud o gotwm gwyn plaen gyda patrwm cyfoethog sy'n cynnwys calonnau, 'per Cymreig', rhosynnau ac ati wedi'u creu mewn pwythau. Mae enghreifftiau eraill yn dangos patrymau sy'n defnyddio lliwiau a phwythau a cheir dau gwilt yno, un ar gyfer gwely a'r llall ar gyfer crud y baban sydd wedi'u gwneud mewn clytwaith. Yn ystod yr arddangosfa fe fydd Cymdeithas Cwrlidiau yn gweithio yn Oriel ar ddydd Mawrth a dydd Iau i ddangos fod y grefft yn dal yn fyw.
Fe oeddwn i wedi'm hudoli gan y sampleri. Mae'n anodd credu bod merched mor ifanc a 10 neu 11 oed wedi creu rhai ohonynt. Tybed beth oedd y merched ifanc hyn yn meddwl o'r dasg o greu y gwaith yma a gymerai oriau maith o'u hamser a llawer o amynedd? Dengys y sampleri ddylanwad addysg, gyda'r mwyafrif o'r geiriau a'r wyddor yn Saesneg, a chrefydd, gyda themau crefyddol yn cael eu gweithio fel rhan o'r sampler. Mae lluniau Adda ac Efa yng Ngardd Eden a'r sarff i'w gweld wedi'u brodio yn sawl un o'r sampleri. Roedd Gweddi'r Arglwydd, y Deg Gorchymyn, Credo'r Apostolion a phenillion yn ymwneud â gostyngeiddrwydd duwioldeb a breider einioes dyn yn destynnau poblogaidd i ymarfer llythrennau mewn brodwaith ar sampleri, sy'n awgrymu'r elfen foesol gref a oedd mor amlwg yn y cyfnod pryd crewyd y sampleri. Mae'r pwythau, patrymau a'r lliwiau yn creu "lluniau" diddorol, pob un yn unigryw.

Nid gwaith plant na menywod chwaith oedd brodwaith yn y canrifoedd cynharach. Dynion oedd yn gwneud llawer o'r gwaith pan oedd edmygedd led-led Ewrop i waith brodwyr o Brydain yn ystod y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Fe oedd y sampleri cyntaf yn rai hir a chul ac yn fodd o ymarfer a gwneud record o batrymau ac amrywiaeth o bwythau a allai gael eu defnyddio fel cyfeireb. Dechreuwyd defnyddio llythrenau yn y brodwaith drwy weithio enw'r crewr a'r dyddiad ond yn ddiweddarach defnyddiwyd y sampler i ymarfer llythrennau y wyddor ar gyfer y gwaith o frodio nod ar lieiniau gwely yn y tai mawr i'w hadnabod ar ddiwrnod golchi. Fe ddaeth brodio yn grefft ddomesdig i'w hymarfer gan fenywod wedi i'r dynion droi at y celfyddydau cain a daeth yn fwy poblogaidd yn y bymthegfed a'r unfed ganrif ar bymtheg, sef paentio ar ganfas a gwaith fresgo.

Erbyn y ddeunawfed ganrif, roedd y sampler wedi newid o fod yn waith y gellid cyfeirio ato ac a gedwid o'r golwg i fod yn rhywbeth i'w arddangos. Daeth yn fyrrach, yn fwy sgwar ac yn fwy addurniadol. Mae nifer o sampleri yn yr arddangosfa yn eu fframiau gwreiddiol sy'n awgrymu'r pwysigrwydd a roddid i'r sampler fel gwaith addurniadol ar gyfer ystafell. Roeddynt yn cael eu hedmygu gan eu perchnogwyr ag aelodau o'r teulu ac fe ddylem ni hefyd eu hedmygu nid yn unig o ran medrusrwydd y gwneuthurwyr ond hefyd am yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym am bobl yn y gorffennol a'r ffordd yr oeddynt yn byw.

Ewch i weld yr arddangosfa; mae yn Oriel hyd y 15fed o Dachwedd. Gellir darllen mwy am gefndir y cwrlidiau a'r sampleri yn y daflen a'r catalog sydd ar gael yn yr arddangosfa (defnyddiwyd peth o wybodaeth ohonynt ar gyfer yr erthygl hon) ac mae taflen yno hefyd ar 'Sut i ofalu am Sampleri' i'r rhai ohonoch sydd a sampler teuluol yn eich cartref.

# Colofn gŵr Shân Emlyn

Mae'n ddigon drwg pan fo'ch gwraig yn eich gadael am chwe wythnos i fynd i ben draw'r byd i barthau sy'n llawnach o benguins di-Gymraeg nac o siaradwyr Cymraeg. Rwbio halen yn y briw, fodd bynnag, yw disgwyl i'r amddifadedig ŵr ysgrifennu ei cholofn yn lle'r ymadawedig wraig. Un addewid y gallaf ei roi i chi, ddarllenydd mwyn, yw nad enwaf y wlad "tu hwnt i'r moroedd" yn ystod hyn o lith gan y byddwch yn siwr o gael syrffed o sôn amdani o fewn i'r golofn hon pan ddychwel yr awdur o'i "chrwydro ffol".

Prif nod unrhyw ŵr a adawyd yn ddi-wraig, tros dro, yw sicrhau nad yw'n rhy amlwg ei fod yn or-ddibynnol arni am "gysgod, bwyd a dillad". Nid gwiw talu gormod o ymweliadau a hafan y Kentucky Fried Chicken nac yn sicr i wneud cais ffurfiol am ymgeledd gan awdurdodau'r Meals on Wheels. Rhaid bod ychydig yn fwy cyfrwys na hynny sef sicrhau y cyfryw ymgeledd yn ddamweiniol fel tae. Cyd-ddigwyddiad llwyr, wrth gwrs, yw cynifer ystod y cyfnod blin hwn pa faint o giniawau S4Caidd sydd wedi ymddangos er mwyn sicrhau bod un pryd sylweddol y dydd ar gael er cynnal corff ac enaid. Hefyd nac anghofier y lliaws cyfeillion trugarog sydd yn sylweddoli mor enbydus i wr gweddw glaswellt yw trefnu unrhyw fath o bryd swyddogol ar y Sabboth ddydd. Ar ben hyn, mae'r buddsoddiad helaeth mewn dwy ferch yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed ar adeg fel hyn er bod un yn ffidlan ei ffordd o amgylch y wlad y dyddiau hyn a'r llall, fel y gŵyr darllenwyr Dinesydd Hydref yn byw yn y 'Fro Gymraeg'. Hefyd nac anghofier Vera, y wraig hynaws sy'n "gwneud i ni" ys dywed y Sais. Daw ar foreau Mawrth a Gwener a phwysig iawn yn ystod y cyfnod hwn yw sicrhau bod bwndeli o ddillad budr wedi eu gosod ar lawr y gegin mewn mannau ystradegol lle nad yw'n bosib iddi beidio â'u gweld heb syrthio drostynt. Wedi'r cyfan, nid oes angen dystio a defnyddio Hoover yn absenoldeb Shan oherwydd sylwedd anweledig yw llwch nad all llygad dyn ond ei ganfod ar ôl i wraig y tŷ darfu arno trwy ffysian o gwmpas gyda chlwt neu beiriant. Ond pe na bae hynny'n digwydd, byddai miloedd o wragedd tŷ ein gwlad yn ddiwaith.


Tynnu hyn o lith i ben sydd raid gan ryfeddu os y llwyddwyd i ddal eich sylw hyd yn hyn gan hanes mor drist a dagreuol. Hefyd, gan mai parhaol yw print, rhaid gochel rhag ysgrifennu mwy neu bydd yn rhaid talu'n ddrud am y fath ryfyg pan ddychwel Cadeirydd y Dinesydd a darllen yr hyn a ymddangosodd yn rhifyn Tachwedd.

O ie, un broblem fechan arall; rwy'n methu'n lân a chofio enw'r wlad y mae Shân yn ymweld â hi. Tybed a all un o ddarllenwyr caredig Y Dinesydd fy helpu?

O.E.

# CYMDEITHAS GORAWL MANSEL THOMAS

Ychydig wythnosau cyn iddo farw ddechrau'r flwyddyn yma, cafodd y diweddar Mansel Thomas wybod gan Havard Gregory ei fod yn bwriadu codi côr cymysg newydd a fyddai'n dwyn ei enw: Cymdeithas Gorawl Mansel Thomas. Buasai'r ddau'n cydweithio o 1950 ymlaen yn y BBC, pan oedd Mansel Thomas yn Bennaeth Cerdd a Havard Gregory yn Gyhoeddwr ac yn Gynhyrchydd.




Dywed Havard - a fu'n Gadeirydd Y Dinesydd am ddwy flynedd: "Ni wnaeth neb gymaint yn ei ddydd â Mansel i hyrwyddo cerddoriaeth yng Nghymru ac i hybu cerddorion Cymreig. O bawb, efe yw'r un y mae ein diolch yn ddyledus iddo am roi llwyfan i'n cantorion ifainc, am gefnogi cymdeithasau a grwpiau cerdd ar draws Cymru, am drefnu i'r cyhoedd gael clywed am y tro cyntaf gyfansoddiadau newydd nifer helaeth o gerddorion Cymru, a hefyd am gyfansoddi'r fath amrywiaeth o gwmpweithiau ei hunan.

"Daeth ei farw yn ergyd drom ac yn golled i'r genedl. Cawsai foddhad arbennig o wybod y byddai côr yn cael ei ffurfio fel teyrnged iddo. Erbyn hyn, mae gennym gymdeithas gryno a chyfeillgar o dros ddeugain o gantorion brwd. Daw'r aelodau o dair sir Forgannwg ac o Went".

Os oes rhai o blith darllenwyr Y Dinesydd â diddordeb mewn ymuno â'r côr, dylent ddod mewn cysylltiad â Havard Gregory, "Gorlan Deg", 24, Holly Grove, Llysfaen, Caerdydd. (Ffôn: Caerdydd 762858). Bydd yntau yn ysgrifennu mewn rhifyn arall yn fwy helaeth am Mansel Thomas a'i gyfraniad unigryw i gerddoriaeth Cymru.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367




CYMDEITHAS LYFRYDDOL CAERDYDD

Un o'r cylchgronau mwyaf poblogaidd yng Nghymru ar hyn o bryd yw'r Casglwr a gyhoeddir gan Gymdeithas Bob Owen, y bobl hynny sy'n caru bodio hen lyfrau a mapiau a dod i wybod mwy amdanynt.

Un o ganlyniadau'r diddordeb yma mewn sawl man yng Nghymru yw sefydlu grŵp o bobl a ddaw at ei gilydd nawr ac yn y man i wrando ar arbenigwyr yn sôn am faterion llyfryddol.

Ac ar y degfed o Hydref, yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, daeth criw at ei gilydd i wrando ar Dr. Brynley Roberts, Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol yn egluro beth y gall grŵp o bobl o'r fath ei gyflawni ac oherwydd ei eiriau brwdfrydig, penderfynwyd mai da o beth fyddai cael cynulliad o'r fath yn y brifddinas.

Aed ati'n ddiymdroi i ffurfio cnewyllyn o bwyllgor gweithredol gyda'r Athro Ceri Lewis yn y gadair, Mr. Wyn James yn ysgrifennydd a Mr. Aneirin Lewis yn drysorydd, gyda Mr. Alun Mathias,Dr. J. Gwynfor Jones a Dr. Eric Evans yn aelodau ychwanegol. Penderfynwyd ar dâl aelodaeth o ddwy bunt a thasg cyntaf y pwyllgor bach oedd ystyried y posibilrwydd o gyfarfod yn un o ystafelloedd y coleg ar y seithfed o Dachwedd ac i wahodd un o arbenigwyr byd llyfrau i arwain y ffordd ymhellach gydag anerchiad. Yn y cyfarfod hwnnw hefyd y bedyddir y grŵp bychan yma o lyfrgarwyr.

Cafwyd gwybod bod amryw'n methu bod yn y cyfarfod am nifer o resymau a chrybwyllwyd ei bod yn bosibl na wyddai llawer am y cyfarfod bwrw'r-cwch-i'r-dŵr. Oherwydd hyn, penderfynwyd anfon gair rhag blaen i'r Dinesydd i estyn croeso i unrhyw un a garai ymuno a'r grŵp.

Sylweddolwyd y byddai'r cyfarfod cyntaf a dyddiad cyhoeddi Dinesydd Tachwedd yn cyd-daro ac na ellid cael gwybodaeth gyflawn i'r papur mewn pryd. Doedd dim modd osgoi hyn, ond cedwch eich llygaid ar agor a'ch clustiau'n effro am ragor o wybodaeth oherwydd mae hi'n syndod pa mor ddiddorol y gall hen lyfrau a mapiau fod a rhagwelir y bydd noson cyfarfod llyfrgarwyr y ddinas yn tyfu i fod yn wir boblogaidd.

Y Gymraeg fydd iaith y cyfarfodydd.

Oherwydd problem gydag ystafelloedd, mae'n fwy na thebyg mai ar nosau Gwener y bydd y cyfarfodydd.

W.J. Jones.


HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD


CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS

Cychwynwyd ar weithgareddau tymor yr Hydref yn y Gymdeithas gyda'r Swper Croeso ar nos Lun, Hydref 6. Roedd pawb mewn hwyliau da a'r byrddau'n ddigon o bictiwr gyda'u llieiniau coch a gwyn a blodau'r Hydref yn lliwgar ymhob man. Cafwyd pryd arbennig o flasus - cawl a chaws a gwin ac amrywiaeth o bice bach a bara brith. Bu Mrs. Moyra Owen a'i morwynion yn brysur tu hwnt yn y gegin a Mrs. Bethan Lloyd yn casglu'r rhoddion a'r blodau yn barod i'r wledd. Ein Cadeirydd Mr. Edryd Lloyd oedd wrth y llyw ac yn ystod y noson cyflwynwyd siec i LATCH sy'n helpu'r plant yn dioddef o'r cancr yn Ysbyty Llandochau. Mrs Elinor Elias Jones oedd yn gyfrifol am y noson ac ar ol y gwledda fe gyflwynodd hi raglen arbennig o adloniant. Croesawyd Einir Wyn Howell i'n hudo gyda Dawns y Siol ac yna Cliff Jones ac Elis Griffith - un o'n haelodau ni i'n diddanu gyda Dawns y Chwarelwyr. Adroddwyd Cywydd Croes i bawb gan Mrs. Owena Hopwood ac yna daeth Jeremy Williams a Dyfed Evans i ganu - gwledd arbennig i'r glust y tro hwn. Dyfed yn canu unawd ac yna'r ddau yn ymuno mewn deuawd fendigedig. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mrs. Elspeth Hughes yr Ysgrifenyddes am ei llafur ac i'n Trysorydd cadarn Mr. Alun Roberts. Noson arbennig o dda i gychwyn y tymor.

Ar noson braf - Hydref 16, bu'r Gymdeithas yn talu ymweliad â Chlwb y Dwrlyn, Pentyrch. Dyna i chi noson! Y ddwy gymdeithas ati'n cystadlu'n frwd - barddoni - canu - actio. Yn wir roedd y doniau'n ddiball ar y ddwy ochr. Ni welwyd y fath ddramau ac ni chlywyd y fath ganu corawl yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ers talwm byd! Roedd arlunwyr o fri ac hyd yn oed ddynion a thalent i wnio yno ac am yr unawdwyr operatig - gwell peidio â sôn amdanyn nhw rhag ofn i'r Cwmni Opera Cenedlaethol ddod ar eu hôl!

Diolch i'r beirniad 'Geraint o Lantristant' am ei feirniadaethau teg, deallus. Rhyfedd ynte mai cyfartal oedd y sgôr ar ddiwedd y noson!!

POB LWC I MOYRA

Rhywsut fe aeth achlysur arbennig heibio heb ei nodi ddiwedd yr haf. Fe roddodd Mrs. Moyra Owen y ffidil yn y to ac ymddeol o'i gwaith fel athrawes Cylch Meithrin Dinas Powys. Mae Moyra wedi bod yn weithgar tu hwnt ar hyd y blynyddoedd, a chenedlaethau o blant wedi dechrau ar eu gyrfa gyda hi yn yr Ysgoldy cyfforddus, cysurus yn y pentref. Anrhegwyd Moyra gan y Pwyllgor Rhieni ar ran y cyn ddisgyblion a'r rhai presennol ac fe gafwyd Noson arbennig i ffarwelio â hi'n swyddogol.

# EISTEDDFOD CASNEWYDD

Achlysur hanesyddol! Roedd maes parcio'r Ganolfan Ddinesig yng Nghasnewydd ar Sadwrn, Hydref 11, yn ffrith o geir EY, JC ac EJ - profiad digon dieithr i darmac y fro hon. Yr achlysur oedd ymweliad cyntaf Cyngor yr Eisteddfod â Gwent - er iddynt ymweld â'r hen Sir Fynwy yn y 50au adeg 'Steddfod Glyn Ebwy, ond yn sicr, yr ymweliad cyntaf â Chasnewydd gan nad oedd Cyngor yr Eisteddfod mewn bodolaeth adeg ymweliad ola'r Brifwyl â'r dre yn 1897.

Rhaid cyfaddef fy mod braidd yn bryderus na fyddai'r uchelwyr Eisteddfodol yn mentro ar y daith o berferddion Gwynedd i bellter Gwent, ond fe ddaethant yn gryno - Dr. Emyr, Derec Llwyd, Bedwyr, Alwyn Sam et al. A mawr oedd croeso Gwent - yr haul yn tywynnu a'r awel yn fwyn, ond John Hughes Cadeirydd 'Steddfod Casnewydd yn ddigon doeth i atal rhag proffwydo tywydd Awst 1988.
Un o bleserau'r dydd oedd gweld Rachel James yn derbyn Y SIEC oddi wrth Dilys Lloyd.
Fe fydd Hywel Teifi yn falch o glywed fod 'Steddfod Casnewydd eisoes yn rhan o hanes y Brifwyl. Yng Nghasnewydd y daeth Owen Edwards i gadeiryddiaeth Cyngor yr Eisteddfod, ac mae argoelion am arweiniad doeth, cadarn a hwyliog. Yma yng Nghasnewydd y bydd y Prifardd Emrys Roberts yn cael gwisgo mantell yr Archdderwydd yn y Seremoni Cyhoeddi ar Sadwrn, Mehefin 27, 1987. Gyda phob dyledus barch i'r Darpar Archdderwydd, fe fydd yn chwith colli Elerydd gan iddo nôl yn y 40'au fod yn un o drigolion Casnewydd.

Roeddwn yn Siambr y Cyngor yn edrych draw at fainc y wasg a'r cyfryngau. Roeddynt yn Gymry da, bob wan jac bron, wedi eu trwytho yn y pethe ac yn hen gyfarwydd â'r hyn sy'n cyfrif i sicrhau Gŵyl Genedlaethol raenus. Ond yn ôl yr adroddiadau a ymddangosodd, yr unig fater o bwys o flaen y Cyngor oedd a ddylid defnyddio adnoddau'r Fyddin i ddiogelu maes yr Eisteddfod. Fe ellwch daeru nad oes gennym afflwy o ddim diddordeb mewn argoelion am 'Steddfod dda. Ai Adran Grefydd y BBC yw'r unig gornel o'r cyfryngau sydd a diddordeb mewn Newyddion Da?

Rwyf bron a llenwi'r ddogfen o ofod a ganiateir gan y Golygydd, ac heb sôn am y Côr, yr apêl am gyllid, arwyddlun 'Steddfod '88 ac yn y blaen. Gyda llaw, os ydych am noddi gwobr yng Nghasnewydd, brysiwch. Mae'r cyfraniadau i'r gwobrau yn llifo i mewn ac yn fuan fe ddaw'r amser i ddweud 'Hold on'.

Un nodyn diddorol i orffen. Mae Lilian Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cerdd, eisoes yn diolch am ddyfodiad yr Eisteddfod. Mae'r Swyddfa Bost bellach yn gyfarwydd ag enw 'Trecelyn' am 'Newbridge', ac mae'r dyddiau o oedi ac amlenni'n llawn nodiadau amheuaeth am gywirdeb y cyfeiriad drosodd. Mae llythyrau bellach yn cyrraedd Trecelyn yn ddiogel ac yn brydlon. Dylanwad yr Eisteddfod ar fro eisoes yn dechrau dwyn ffrwyth. Gwych!

Gwynn Tudno.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**



**MAE 'BOWEN & DAVIES' YN FLWYDD OED**

PROFWCH GYNNYRCH CYMRU
BWYDYDD BLASUS O BOB MATH—

— **PASTA FFRES O'R FENNI**
— **MOUSSAKA A PASTITIOS O ABERCYNON**
— **PASTAI FFRES A PATE O ABERTEIFI**
— **PATE BRITHYLL MWG LLAWHADEN**
— **DWR FFYNNON CROYW, NATURIOL 'DECANTS' AC ABERHONDDU**
— **CAWS PANTCARREG, LLANBOIDY A LLANGLOFFAN**

ARCHEBWCH—
— **GACENNAU A GATEAUX CARTREF WEDI EU COGINIO YM MHONTCANNA**
— **SIOCLED WEDI EI WNEUD A LLAW GAN 'DAISY' YM MHONT Y PWL**

Y CYFAN AR GAEL YN Y SIOP
**BOWEN & DAVIES**
231, HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
(GER CAEAU LLANDÂF)
FFÔN: 27180

*CROESO I BAWB*

# SONAMDANI

## comedi cadw'n heini gyda Clive Roberts, Dyfed Thomas a Robin Griffith

**Estynnwn wahoddiad i chi dreulio sesiwn yn**

# YR IECHYD DA HEALTH FARM

• perchnogion: Doris ac Evelyn Haydon-Williams •

ar Nos Sadwrn
Tachwedd 8, 15, 22, neu 29
Rhagfyr 6 neu 13 1986
yn y Stiwdio Iechyd,
HTV Cymru,
Croes Cwrlwys, Caerdydd



♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦♦

**Tocynnau ar gael drwy gysylltu â:**

**Tocynnau**
**SONAMDANI**
**Swyddfa Cysylltiadau Cyhoeddus**
**HTV Cymru**
**Caerdydd CF5 6XJ (0222) 590537**

HTV CYMRU

# BLWYDDYN HENOED CYMRU

Bydd 1987 yn flwyddyn arbennig yn hanes pensiynwyr Cymru gan fod Cyngor Henoed Cymru wrth ddathlu ei 40ed Jiwbili wedi neilltuo 1987 yn Flwyddyn yr Henoed.

Wrth edrych yn ôl ceir cofnod am sefydlu Pwyllgor Lles yr Henoed yng Nghymru ym 1947 gan Gyngor Gwasanaethau Cymdeithas-ol Cymru a Mynwy fel y gelwid ef y dyddiau hynny. Y trefnydd cyntaf oedd Cyrnol Llewellyn Evans o Benybont ar Ogwr a osododd y sylfeini cynnar. Dilynwyd ef gan y Parch Herbert Davies. Yr adeg honno, y Parch Ivor Cassan oedd Cyfarwyddwr y Cyngor Gwasanaethau ac yn ystod ei amser ef penodwyd y swyddogion nesaf, sef Mr. Edgar Spooner, y Drenewydd a'r trefnydd presennol.

Ym 1976 ennillodd Pwyllgor Lles yr Henoed ei annibyniaeth. Newidwyd yr hen enw, cyfansodd-iadol i Cyngor Henoed Cymru a mabwysiadwyd yr enw "Age Concern Wales" ar gyfer hysbysrwydd.

Dyma'r unig fudiad cydnabydd-iedig Cymreig sy'n llwyr wasanaethu henoed Cymru. Prif amcan y mudiad yw hybu a datblygu gwasanaethau personol pwrpasol er cadw'r henoed yn eu cartrefi cyhyd â bo modd. Darperir hefyd wybodaeth a chyfarwyddyd ar bob mater sy'n effeithio lles yr henoed. Bodola'r mudiad hefyd er mwyn pwyso ar y llywodraeth i ddarparu gwell telerau byw i'r henoed fel y gallant fyw bywyd llawn yn y gymdeithas.

Amcan arall yw darparu cyfle i fudiadau gwirfoddol a stadudol ddod at ei gilydd i drafod y modd gorau i gyd-weithio er mwyn gwella ac ychwanegu at y gwasanaethau.

Erbyn heddiw mae'r gwaith wedi cynyddu yn ddirfawr gyda chymorth canghennau sirol a lleol. Mae yna 8 o staff heddiw lle'r oedd 2 yn '78. Datblygwyd ymhellach eleni wrth ffurfio asiantiaeth o dan nawdd yr MSC. Golyga hyn benodi rhyw 300 ychwanegol o weithwyr rhan amser er mwyn datblygu rhagor o wasanaethau ledled Cymru gan gyrraedd ei lawn dwf ym 1987 - Blwyddyn Henoed Cymru.

Y mae amcan dirphlyg i'r Flwyddyn sef rhoi hysbysrwydd dyladwy i'r mudiad, a sicrhau fod pawb yn gwybod am ei waith. Yn ail, i fanteisio ar y flwyddyn i gychwyn prosiect-au a chynlluniau newydd. I'r perwyl yma gosodir nod o £250,000. Apeliwn yn daer ar Gymru gyfan i gefnogi ei mudiad eu hunain. Os fydd unrhyw unigolyn, grwp neu glwb, yn barod i'n cefnogi drwy drefnu gweithgareddau codi arian, byddem yn wir ddiolchgar gan fod yna lawer eto i'w wneud.

Y trydydd amcan yw tanlinellu a phwysleisio lle'r pensiynwyr yn y gymdeithas ar sail eu profiad, gwybodaeth a'u doniau. Trefnir nifer o weithgareddau gan ein grwpiau lleol trwy gydol y flwyddyn.

Cyhoeddwyd cystadleuaeth lenyddol ar gyfer ein pensiynwyr. Dylai'r ceisiadau ddod i law erbyn Rhagfyr laf, 1986 i'w beirniadu gan y cyfaill Islwyn Jones.

Dyma'r gystadleuaeth :

1. Stori wir...."Cof gennyf fel petae'n ddoe.....
2. Traethawd.... "Hen feddyginiaethau
3. Barddoniaeth...."Llwybrau"
4. Emyn a Thôn ar gyfer yr henoed
   a. cyfansoddi emyn a thôn
   b. cyfansoddi emyr ar gyfer tôn parod
   c. cyfansoddi tôn ar emyn parod
5. Dyddiadur wythnos yn hanes pensiynwr
6. Llawysgrif 'Copper Plate' - unrhyw ddarn o farddon-iaeth neu ryddiaith heb fod mwy na 16 llinell

Gobeithir y daw ymateb i'r gystadleuaeth uchod.

Cafwyd awgrym fwy nac unwaith yn y gorffennol y dylid ffurfio 'Clwb yr Henoed' ar gyfer Cymry Cymraeg. Os oes diddordeb gennych a wnewch chi gysylltu â D. Haydn Thomas, 1, Park Grove, Caerdydd. Ffôn 371821

Tuag at y Trydydd Byd

**SÊR**

**YN**

**SALEM**

**AR**

SADWRN, RHAGFYR 6ed
AM 7.30 O'R GLOCH

YN

SALEM, CANTON

*Oedolion £1.50*

AR WERTH - Fflat hwylus dwy lofft; Canol y ddinas. £28,500

Ffôn: 398309

# BWTH RUTH



Wel helo a pa hwyl sydd, diwrnod braf o Hydref heddiw yn union yr un math o ddiwrnod ag oedd hi pan fu'r Wyl Gerdd Dant yma yng Nghaerdydd - d'ach chi'n cofio?

Y llynedd byr iawn fu tymor yr Hydref gan fod gwyntoedd cryf wedi chwythu'r dail o'r coed cyn iddyn nhw grino bron ond eleni mae wedi gwneud tymor hardd i'w ryfeddu. Dwi'n edrych rwan ar goed tal caeau Llandaf a'u copaon nhw'n felyn, brown ag oren a petawn i'n hogan dda i fyddwn i'n gallu bod wrthi'n ddyddiol yn sgubo'r dail sydd wrthi'n syrthio 'ma.

Tydan ni'n ffodus deudwch ein bod ni'n cael pedwar tymor a rheiny'n wahanol. Pan o'n i'n byw yn Libya dyna beth fyddwn i'n golli fwya - gan fod Gwanwyn yn para rhyw bythefnos, ha' hir poeth, dim Hydref a Gaeaf tebyg i'n Haf ni eleni!

Tybed pa dymor ydi hi ym Mhatagonia; mi gawn ni glywed bid siwr pan ddaw'r criw sydd wedi mynd yno gogyfer a'r Steddfod yn ôl. Fedrai ddim llai na dotio(ddim cweit gymaint a Madam Golygydd) at ddycnwch trigolion Y Wladfa yn dal gafael mor dynn yn yr iaith Gymraeg a chymaint o ddylanwadau Sbaeneg o'u cwmpas nhw; mi rydan ni'n cael trafferth i gynnal ein hiaith er fod ganddon ni Sianel Deledu a Radio Cymru.

Dyma rannu cerdd mae Dic Jones wedi sgwennu a'i anfon draw i Batagonia i'w cyfarch ar eu canfed Steddfod:

<u>Steddfod Trelew</u>

Can mlynedd eich rhyfeddod -
o Walia
A wyliwn mewn syndod.
Mae cyneddf yr Eisteddfod
A'i hwyl fyth yn dal i fod.

Dal o hyd yn deulu iach -
â'i nerthu'n
Y gwerthoedd amgenach;
Dal yn gangen hen linach
A dal i fyw'n dawel fach.
A dal i gynnal gyhyd -
hen lithern
Eich arloeswyr ynfyd.
Delfrydau biau bywyd
Breuddwydion beirdd yw dawn byd.

Cedwch eich annwyl wyliau -
a chenwch
Yno'r hen ganiadau;
A bydded goruwch beddau
Y paith i'r heniaith barhau.

<u>Dic Jones</u>

YN EISIAU - teipiadur rhad sy'n dal i weithio! Cysylltwch â:

N. Rh. Owain,
7, Heol Monthermer,
CAERDYDD.
Ffôn: 42816

# LLYFRAU

**'Cread Crist'**, Donald Evans
Cyhoeddiadau Barddas, £3.50

Mae cyfrol ddiweddaraf Donald Evans yn gasgliad o farddoniaeth sydd wedi'i gynllunio'n ofalus iawn. Dilyniant y tymhorau sy'n darparu'r fframwaith, a symudir o Fedi hyd yr haf canlynol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y gaeaf a'r gwanwyn. Ceir nifer o gerddi sy'n darlunio golygfeydd yn ardal Banc Siôn Cwilt yn fanwl a thrawiadol. Yn gymysg â'r rheini, ac yn wrthbwynt iddynt, ceir cerddi Cristnogol sy'n gweld y cread mewn goleuni ysbrydol, fel y mae teitl y gyfrol yn ei awgrymu. Mewn gwirionedd, er bod rhai o'r cerddi'n ymddangos yn wrthrychol o'u hystyried yn unigol, ni cheir disgrifio er ei fwyn ei hun yma. Fel mewn llawer o farddoniaeth Gymraeg ddiweddar, mae arwyddocâd ffigurol yn perthyn i dymhorau cyferbyniol y gaeaf a'r gwanwyn. Yng ngherdd gyntaf y gyfrol sonnir am 'y gaeaf nad yw'n aeaf yn ein bygwth o'r nos', sef dinistr trwy ryfel niwclear, a dywedir mewn man arall fod marweidd-dra'r gaeaf 'fel herald i gyfnod ein difodiant'. Felly daw gerwinder y gaeaf yn symbol o elfen ddinistriol yn y greadigaeth. Mae'r gwanwyn, ar y llaw arall, yn cynrychioli atgyfodiad Crist a'r adfywiad cyfatebol a ddaw i fyd dynion o dderbyn Ei ras. Felly mae cerddi'r gyfrol hon yn ffurfio cyfanwaith clòs a chytbwys, a rhaid eu darllen gyda hynny mewn golwg er mwyn iawn werthfawrogi gweledigaeth y bardd. Mae'r gyfrol hon yn ymdrin â'r bygythiad mwyaf a wynebodd y ddynoliaeth erioed, ac yr wyf i'n parchu'r modd croyw a digymrodedd y mae Donald Evans yn mynegi'i agwedd ato.

Ond, mae yma bethau sy'n peri anesmwythyd i mi. Teimlaf fod y cyferbyniad rhwng malltod marwaidd y ddynoliaeth a phurdeb bywiol Crist yn ddireswm o eithafol. Ni welaf pam y dylid llwytho holl agweddau negyddol y byd naturiol ar ysgwyddau dynion, a gweld yr agweddau cadarnhaol yn ddwyfol. Mae hyn yn peri i'r bardd weld pethau yn nhermau gwrthgyferbyniadau syml a thwt, fel yn 'Y Dewis', sy'n sôn am ddewis rhwng 'ein diwedd a Duw'. Mae arfau niwclear yn ffiaidd gennyf innau hefyd, ond rwy'n credu mai rwtsh yw diweddglo 'Teimlo':

Dduw mawr! Y mae dyn yn cynllunio
dilead
y gwanwyn 'rwyt Ti'n ei gynnal ar Dy
gread.

Yn sicr dylem wynebu posibilrwydd y gaeaf niwclear, ond ni allaf dderbyn mai cynllun maleisus yn erbyn creadigaeth Duw yw'r arfogi, fel yr awgrymir yma. Efallai y dywed rhai pobl nad yw anghymeradwyo syniadau'r bardd ddim yn rhan o briod waith yr adolygydd. Mae gen i ddau ateb i hynny. O safbwynt llenyddol, mae meddylfryd y bardd yn effeithio ar holl ansawdd ei farddoniaeth (fel y dylai wneud), gan beri iddo drin iaith mewn ffordd eithafol. Ystyrier y darlun bygythiol a therfynol a greir yn yr englyn 'Hwyr Barrug':

Y gorwel yn siarp-gywrain – fel rasel
O liw oerfel hirfain;
Crib y glog yn finiog fain,
Crib y foel yn foel filain.

Mae hwn yn englyn gwych o safbwynt celfyddyd, ac mae'n amlwg fod bardd medrus dros ben ar waith yma, ond dyma ddangos y perygl o wahanu modd a mater. Yng nghyd-destun y gyfrol gyfan mae'r tirluniau'n ennill arwyddocâd dyfnach fel trosiadau am gyflyrau ysbrydol, ac mae'r arddull yn eu cyflwyno mewn goleuni arbennig, ac felly'n cyfrannu'n sylweddol at yr ystyr.

Yn ail, o safbwynt neges y cerddi, mae'n drawiadol nad oes sôn yma o gwbl am ddiarfogi fel ateb i'r perygl sy'n ein hwynebu. Rwy'n meddwl y bydd y bardd yn colli cydymdeimlad llawer o ddarllenwyr oherwydd hyn. Yn ei olwg ef mae'r natur ddynol yn rhy lygredig i allu gwneud dim ynghylch y sefyllfa ond troi at Dduw. Ac o ganlyniad i hynny fe ymddengys nad yw'r bardd yn gweld gobaith osgoi'r trychineb, fel yr awgryma'r gerdd frawychus, 'Yr Ail Genesis', sydd fel petai'n croesawu dinistr y bomiau niwclear er mwyn rhoi cyfle i wanwyn Duw ail-greu'r byd. Mae honno'n debyg i rai o gerddi Gwenallt, bardd sy'n ddylanwad trwm ar waith Donald Evans. Mae'n anffodus nad yw ef wedi derbyn peth o ddynoliaeth Gwenallt ynghyd â'i Gristnogaeth. Un o'r agweddau tristaf ar y gyfrol hon yw prinder y cerddi sy'n sôn am bobl yn benodol. Mae'r gerdd bwerus, 'Nadolig 1978', sy'n sôn am farwolaeth ei fam, yn eithriad disglair, er nad un i godi calon. Gwelir agwedd nodweddiadol y bardd at y ddynoliaeth yn 'Angladd ym Mhenparcau', sy'n disgrifio llanciau'n claddu cyfaill,

'gan wylo rhwng ing a llid, dan y
gwynt didaw,
yn ddiball ac yn ddiddeall, ddi-hedd.'

Credaf mai math arbennig o Gristnogaeth sy'n peri i Donald Evans weld pobl fel hyn. Nid wyf yn ei feirniadu o safbwynt gwrth-Gristnogol, ac yn sicr fe dderbyniaf y posibilrwydd fod Cristnogaeth yn cynnig ymwared i'r ddynoliaeth yn ei hargyfwng presennol. Ond fe geir safbwyntiau Cristnogol eraill sydd heb fod mor eithafol o negyddol yn eu hagwedd at y ddynoliaeth, a chredaf y byddai barddoniaeth Donald Evans ar ei hennill o'u cynnwys ynddi. Wrth orffen, carwn bwysleisio fod y gyfrol hon yn waith bardd crefftus iawn sy'n mynd i'r afael o ddifrif â phwnc tyngedfennol, a'i bod yn haeddu cael ei hystyried a'i thrafod o ddifrif.

D. R. Johnston

# Y DINESYDD BACH

Croeso i'r byd i Owain Gruffydd, mab i Rhodri Williams a Siân Helen, 11 Llys Pontcanna, Caerdydd, a anwyd ar y 15fed o Hydref. Dyma gynhyrchiad gwerth chweil o'r diwedd gan un o dîm 'Y Byd ar Bedwar'! Llongyfarchiadau i ddau o gyfeillion gorau'r Dinesydd.

# TAI BACH TWT

TAN Y 15ed o fis Tachwedd mae 'na arddangosfa yn Chapter ddylai fod o ddiddordeb i sawl un o ddarllenwyr y Dinesydd. Arddangosfa yw hi am y tai a adeiladwyd yng Nghaerdydd rhwng 1850 a 1914, adeg pan fu cynnydd mawr yn nifer trigolion y ddinas, o 18,000 o bobl i 180,000. Wrth astudio pensaerniaeth y tai, dysgwn hefyd am hanes a gwleidyddiaeth Caerdydd yn oes Fictoria, ac am y problemau a ddaeth yn sgîl y tyfiant hwn.

I'r rhai sydd yn deall techneg y pensaer, mae yma gynlluniau manwl o sawl math o dŷ. Fy unig gŵyn am yr arddangosfa yw nad oedd unrhyw ymdrech yn yr adran hon i'w gwneud yn ddiddorol, neu hyd yn oed yn ddealladwy i'r lleygwr. Ond yn adrannau eraill yr arddangosfa, ceir digon o ddeunydd i godi chwant y mwyaf diog i gerdded trwy'r strydoedd i syllu ar harddwch pensaerniaeth troad y ganrif. Lluniau a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr arddangosfa hon yw rhan helaeth o'r deunydd, ac maent yn egluro'r pwynt yn ardderchog, ac hefyd yn ei gwneud hi'n arddangosfa fyw iawn. Wrth weld yr holl luniau gyda'i gilydd fel hyn, mae amrywiaeth mawr y dulliau pensaerniol a deunyddiau adeiladu yn y ddinas yn dod i'r amlwg. Byddai'r adeiladwyr yn hoff o roi eu stamp eu hunain ar dai teras i beri iddynt sefyll allan, a cheir enghreifftiau o'r teils, y llechi a'r addurniadau gwahanol a ddefnyddient. Daw ffeithiau bach annisgwyl i'r golwg yn sgîl yr wybodaeth hon, er enghraifft, a wyddoch chi fod 46 math gwahanol o blanhigion o ardal Môr y Canoldir yn tyfu yn ardal y dociau tua dechrau'r ganrif, o hadau a ddaeth drosodd ar gerrig adeiladu? Mae'n hwyl ceisio dyfalu ym mha ran o Gaerdydd, ac ym mha stryd mae'r tai yn y lluniau, ac mae'n addysgiadol sylweddoli fod adeiladau cyfarwydd yn bwysig yn hanes y ddinas.



Rhoddir sylw manwl i chwe ardal o Gaerdydd a Phenarth yn nhrydedd ran yr arddangosfa, ac ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 8fed, ceir taith gerdded o amgylch un o'r ardaloedd hyn, sef y Rhâth. Mae'n debyg y bydd rhaid bwcio o flaen llaw, er mai dim ond 60c yw'r pris, ac am fanylion pellach, dylid cysylltu â Chapter.


Ni cheir unrhyw hiraethu yma am yr oes a fu, na gresynu am y moderneiddio sydd wedi difetha sawl un o dai teras Caerdydd. Defnyddir enghreifftiau diddorol a bywiog er mwyn rhoi digon o wybodaeth i godi chwant am ragor, a digon o ysbrydoliaeth i'n hysgogi i fynd allan i chwilio amdano ein hunain. Bydd trip mewn car neu ar droed yn y ddinas yn fwy diddorol o lawer o hyn ymlaen.

Siân Johnston

'On the House, Domestic Architecture in Cardiff 1850-1914'
Chapter, Treganna. Ffôn 396061
Llun – Sadwrn 12-5 a 7-10pm
Mynediad yn rhad ac am ddim

Bydd gŵyl ddrama a noddir gan bapur bro Tafod Elai yn cael ei chynnal ddiwedd mis Tachwedd ac mae cwmni bychan o Glwb Ifor Bach yn gobeithio chwifio baner Caerdydd yn yr ŵyl. Bwriadant berfformio 'Caffi Sam', drama fer ddwy act gan Rhys Llwyd. Gwyliwch y gofod hwn am newyddion pellach.

# Y CROESAIR – Ap Lewsyn RHIF 66



Ar Draws:
1. Perthynas cariadus (5)
2. Diddymu chwarter Abergynolwyn a ffeinio bas ymhlith y llanast sydd ar ôl (9)
9. Tom (7)
10. Nid yw acen byth yn naturiol, os oes rhaid ei rhoi yn ôl (7)
11. Erfinen sy'n rhannol gyfrifol am smotiau heintus crwn ar y croen (5)
12. Hanner y rhif (4)
13. Yn ddiau, nid ydi o, Siarl, yn dangos yr un sicrwydd (4)
15. 'Rwy'n mynd allan (2,2,3)
17. Andwyo, a llafariad yn dilyn, yn ddiffael (6)
20. Ben bwygilydd (6)
22. Caf yma flew anniben wrth alw heibio (7)
25. Atgof sydd bron yn ddieithriad yn dda (4)
26. Tredomen? (4)
27. Rhif 12 x 2 (5)
29. Maent o flaen y llysoedd yn barhaus (7)
30. Yn cyfarfod â'r angen (5,2)
31. Y mae'n dod o hyd i adnod addas i'w dadelfennu (9)
32. Bu un-ar-bymtheg ohonynt yn Ffrainc (5)

I Lawr:

1. Pabell symudol sydd yng Nghaerdydd ers 1826 (9)
2. Y mae'n cymryd lle, ond nid yn digwydd (7)
3. Mae nifer yn llwyddo i ganu (5)
4. Mor amryddawn ag ugain ceiniog newydd (8)
5. Cromnen wedi ei llunio o bren yw (6)
6. Cartre Twm? (4)
7. Yr hyn y mae pawb call yn ei wybod (2,3,2)
8. Fe fedrwch hawlio hwn (5)
14. Un twp sy'n gwneud rhywbeth mor fychan (4)
16. Mae Sais hen-ffasiwn yn gwneud hyn -- call iawn (4)
18. Satan naif iawn sy'n creu'r afles hwn (9)
19. Stad sy'n eiddo i'r dyn bach (8)
21. Daff o'r De yn rhoi agoriad llygad ysgytwol inni (7)
23. Rhan o stoc yr hen Gwenllian Fach? (5,2)
24. Torri'r radio'n ddeilchion i gael yr ateb (6)
25. Mae cant o arian Kruger yn wych (5)
27. Dyma'r arian a gawsom yn newid (5)
28. Alaw gron? (4)

DATRYSIAD RHIF 65

Ar Draws:
1. YN TARO'R GWAELOD; 9. BETIAIS; 10. DWBLERI; 11. TUSW; 12. DIYMANNERCH; 14. IYRCHOD; 15. YN DANGOS; 17. MWYNHEWCH; 18. GALLUOG; 21. TACLUSRWYDD; 22. RHUTHR; 24. YMWTHIED; 25. PLENTYN; 26. ANNISGWYLIADWY

I Lawr:
1. YSBYTAI; 2. TATWS TRWY'U CRWYN; 3. RWAN; 4. RYSAIT; 5. WEDI MYND; 6. ESBONIADAU; 7. OFER ESGEULUSTOD; 8. DIACHOS 13. TORHEULIAI; 16. GWYREDIG; 17. MATSYS; 19. GORONWY; 20. MYMPWY; 23. GERI

OS AM WERSI PIANO, cysylltwch â Joy Davies, B.Mus.,L.T.C.L. Ffôn: 752173

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Ni fu '86 yn flwyddyn hawdd, ond mae hi bron â dod i ben. Mae hi'n bryd nawr i roi trefn ar eich tŷ ar gyfer '87. Canolbwyntiwch ar y llwyddiannau a gawsoch eleni - maen nhw'n dangos y ffordd yn glir.

TAURUS: Mi fyddwch yn teimlo braidd yn flinedig y mis hwn ar ôl yr holl gyffro a fu ym mis Hydref. Peidiwch â gadael i'ch cyd-weithwyr eich tynnu i lawr. Byddai'n syniad diflannu am sbel. Ewch am wyliau!

GEMINI: Ni fu 1986 yn garedig iawn i chi yn ariannol, nag yn emosiynol, ond cymrwch gysur, mae newidiadau ar ddod yn y gwaith, ond gadewch i bobl eraill wneud y penderfyniadau.

CANCER: O'r diwedd ar ôl cyfnod eitha rhwystredig a chythryblus mae pethau ar i fyny yn eich bywyd emosiynol. Mae hi'n bryd bellach i chi osod gwreiddiau a chynllunio tuag at y dyfodol. Byddwch garedig i'r teulu.

LEO: Mis ardderchog ond i chi sylweddoli fod pobl eraill yn wahanol i chi - peidiwch â llesteirio eu datblygiad - a mi fyddwch chithau'n elwa.

VIRGO: Fe allwch fod yn rhy onest weithiau a digio eraill - felly daliwch eich tafod y mis hwn - er lles eich hunan yn bennaf. Cyfnod llewyrchus fydd hwn yn ariannol - mentrwch! - fyddwch chi ddim ar eich colled.

LIBRA: Byddwch yn barod iawn i ymladd â'ch gwrthwynebwyr y mis hwn - peidiwch ag ypsetio eich hunan wrth wneud! Bydd newidiadau mawr yn y gwaith, ac er gwaetha'r ansicrwydd fe ddaw pob peth yn iawn.

SCORPIO: Peidiwch â gadael i neb ddylanwadu arnoch, er eich bod yn mynd trwy gyfnod anodd yn emosiynol. Mae eich agwedd tuag at fywyd wedi newid llawer yn ddiweddar, ond peidiwch â disgwyl i hynny gyffroi ben arall.

SAGITTARIUS: Mi fyddwch yn ffarwelio â rhywun dros dro, gall hyn eich brifo ond rhaid cymryd pethau fel y dôn nhw. Mi fyddai'n syniad da i chi ganolbwyntio ar eich gwaith nawr - mae newidiadau ar y gweill.

CAPRICORN: Mi fydd pethau'n mynd yn ardderchog yn y gwaith, ac fe wnaiff hynny yn iawn am unrhyw anghydfod yn y cartref. Canolbwyntiwch ar y gwaith! Mae'n bosib y byddwch yn dechrau ar berthynas newydd.

AQUARIUS: Dyma fis y penderfyniad, a wnaiff dim na neb eich dal yn ôl. Os ydych mewn tipyn o gawdel yn eich bywyd, efallai na ddylech fod wedi anwybyddu eich greddf ddechrau'r flwyddyn.

PISCES: Mae hi'n bryd bellach i chi godi uwchlaw mân gweryla y byd ac ehangu'ch gorwelion. Rhaid i chi nawr dorri cwys eich hunan ac anwybyddu cynghorion pobl eraill. Mi ddylech fod yn ddeinamig yn y gwaith y mis hwn.

# NEWYDDION

Llongyfarchiadau i Nia a Dudley Newberry ar enedigaeth eu merch fach, Cadi, yn Ysbyty'r Waun ar Fedi'r 29ain. Dymunwn ddyddiau dedwydd iddyn nhw fel teulu bach. Tybed a fydd y fechan yn etifeddu peth o ddawn ei thad ym myd coginio?

---

Llongyfarchiadau i'r Drd. Ron ac Eleri Williams, 61 Newborough Avenue, Llanishen, ar enedigaeth mab, Geraint. Mae Ron yn frodor o Lanaman ac y mae Eleri â'i gwreiddiau yn Nyffryn Conwy; mae'r ddau yn darlithio yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg.

---

Llongyfarchiadau i Steffan Webb a Gill Stephen ar eu dyweddiad diweddar. Deallwn eu bod yn bwriadu priodi yn y Flwyddyn Newydd. Cawn fwy o hanes y briodas yn rhifyn Chwefror. Dymuniadau gorau oddi wrth ddarllenwyr Y Dinesydd.


---

Llongyfarchiadau i Jeremy Williams. Fe enillodd ysgoloriaeth gorawl i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt. Mae Jeremy yn y Chweched Dosbarth yn Ysgol Gyfun Glantaf ac yn fawr ei ganmoliaeth o'r hyfforddiant a gafodd yn ystod ei yrfa yn yr ysgol. Mab i Angela a Gerwyn Williams a brawd Sian yw Jeremy. Pob hwyl yn y dyfodol.

---

Deallwn fod Rhodri, mab Selwyn a Margaret Jones, Cyncoed, wedi derbyn swydd fel meddyg teulu yn Hwlffordd, Sir Benfro. Bydd Rhodri a'i wraig yn symud yno cyn hir o Lerpwl lle bu'r ddau yn gweithio mewn ysbytai. Dymuniadau gorau iddyn nhw.

---



Llongyfarchiadau i Owen Edwards ar ei benodi yn Gadeirydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol. Derbyniodd y swydd mewn cyfarfod o'r Cyngor ddydd Sadwrn, Hydref 11eg, yng Nghasnewydd ac, wrth gwrs, yno, ym Mharc Tredegar y cynhelir yr Eisteddfod yn 1988. Estynwn longyfarchiadau a dymuniadau da iddo gan lawenhau hefyd wrth weld Y Dinesydd a'r Eisteddfod yn closio at ei gilydd mewn ffordd mor hapus.

# PENODI

Llongyfarchiadau i Huw Edwards ar ei benodiad yn Ohebydd Seneddol y B.B.C. i ddilyn Dylan Iorwerth. Bu'n Is-olygydd Newyddion Saith ers dros flwyddyn ar ôl cyfnod fel newyddiadurwr dan hyfforddiant. Graddiodd mewn Ffrangeg yng Ngholeg Caerdydd a bu'n dysgu Saesneg yn Ffrainc am flwyddyn.

Bydd yn dechrau ar ei waith newydd ym mis Tachwedd ac yn symud i fyw yn Llundain.

**Pob hwyl iddo yn ei swydd newydd**



---

Gallwn fanteisio ar y cyfle hefyd i longyfarch Sian, eu merch, ar ei phriodas beth amser yn ôl. Bu'r briodas yng Nghapel Efengylaidd Y Waun ac mae Siân, sydd yn nyrs ym Mryste, a'i gŵr wedi sefydlu eu cartref yn y ddinas honno.

Mae'n dda gan ei lu cyfeillion wybod bod Mr. William Idris Morgan, Pendinas, Rannoch Drive, yn gwella'n dda ar ôl cael llawdriniaeth yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, Caerdydd.

---

Ddydd Sadwrn, Awst 30ain, priodwyd Ceirios, merch Glyn a Joan Lewis, a Lloyd, cyfrifydd o Guildford, yng Nghapel Heol y Crwys. Fe'u priodwyd gan y Parch Stanley G. Lewis, Y Drenewydd, ewythr Ceirios. Mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefu yn Rhiwbeina. Ein dymuniadau gorau i'r ddau.

---

Dymunwn adferiad buan i Moelwyn Preece ar ôl ei ddamwain diweddar. Mae gweld eisiau sirioldeb a hiwmor Moelwyn mewn cymdeithasau diri yng Nghaerdydd a gobeithio y cawn ni ei weld o yn holliach yn fuan iawn.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Bessie Garbett Evans yn eu profedigaeth o'i cholli ar ôl salwch byr. Collodd Capel Heol y Crwys un o'r teuluoedd ffyddlonaf i'r achos.

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Rhagfyr at: Shan Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Tachwedd 23ain.

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

## GŴYL GERDD CAERDYDD 1986 19 TACHWEDD I 6 RHAGFYR

Swyddfa Tocynnau:
Neuadd Dewi Sant,
CAERDYDD.
Ffôn: 371236

Prif Gyngherddau:

I'w cynnal yn Neuadd Dewi Sant oni nodir yn wahanol.

Mercher, 19 Tachwedd
JOHN WILLIAMS - Gitar

Gwener, 21 Tachwedd
Neuadd Gyngerdd Y Brifysgol
MUSICA VARIA (Salsburg)

Sadwrn, 22 Tachwedd
CERDDORFA SYMFFONI LLUNDAIN
Arweinydd: Claudio Abbado
Viktoria Mullova - **ffidil**

Sul, 23 Tachwedd
CERDDORFA LEIPZIG GEWANDHAUS
Arweinydd: Kurt Masur
Christian Funke - ffidil
Jurnjakob Timm - cello

Mercher, 16 Tachwedd
Neuadd Gyngerdd Y Brifysgol
SINFFONIA DINAS LLUNDAIN
Arweinydd: Richard Hickox

Sadwrn, 29 Tachwedd
Cyngerdd Bore ar gyfer plant
CERDDORFA SYMFFONI GYMREIG Y BBC
Arweinydd: Andrew Davis

Sadwrn, 29 Tachwedd,
Eglwys St. Germanus, Planet Street
CERDDORIAETH NADOLIG
Côr a Cherddorfa Y Brifysgol

Sul, 30 Tachwedd
CERDDORFA SYMFFONI GYMREIG Y BBC
Arweinydd: Andrew Davis
John Lill - piano
Cantorion Ardwyn; Corws y BBC; Cor Polyphonic Caerdydd ac Unawdwyr

Llun, 1 Rhagfyr
CERDDORFA SYMFFONI RADIO DAENEG
Arweinydd: Lamberto Gardelli
John Ogdon - piano

Mercher, 3 Rhagfyr
CERDDORFA SYMFFONI GYMRIG Y BBC
Arweinydd: Owain Arwel Hughes
Ralph Kirshbaum - cello

Gwener, 5 Rhagfyr
CERDDORFA LINYNOL LLOEGR
Arweinydd/Unawdydd: Sir Yehuidi Menuhin
Lelan Chen - ffidil

Sadwrn, 6 Rhagfyr
CERDDORFA SYMFFONI LLUNDAIN
Arweinydd: Yuri Simonov Peter Donohoe - piano

Rhaglen lawn o Neuadd Dewi Sant.